

# Gwelliannau Diogelwch

## Diogelwch ar y briffordd




**1 Problem -** Mae'r lle parcio ar ochr Arglawdd Cayley yn gul ac agos iawn at y ffordd lle mae traffig yn mynd heibio.

**1 Ateb -** Llefydd parcio ffurfiol gyda pharth diogelwch. Bydd hyn yn rhoi lle diogel ychwanegol i fynd i mewn ac allan o gerbydau.

**2 Problem -** Ar hyn o bryd 'does dim cyfleusterau i groesi drosodd i ardal y promenâd.

**2 Ateb -** Bydd croesfannau ffurfiol ar bellteroedd rheolaidd a gwneud y ffordd yn un lôn gyda therfyn cyflymder o 20mya yn lleihau'r risg yn sylweddol.

**3 Problem -** Ni all pobl sy'n parcio yn y llefydd parcio croesgornel fynd i mewn i gist eu car heb sefyll yn agos iawn at, neu yn y traffig sy'n pasio heibio.

**3 Ateb -** Bydd parth diogelwch yn rhoi mwy o le rhwng cerbydau wedi'u parcio a'r traffig sy'n gyrru heibio gan roi lle diogel i bobl fynd i mewn i gist eu car.

**4 Problem -** Mae cerbydau sydd wedi'u parcio yn y llefydd croesgornel yn gorfod bagio allan, heb allu gweld yn glir, yn syth i'r traffig sy'n mynd heibio ar gyflymder o 30mya.

**4 Ateb -** Bydd y parth diogelwch yn gwella'r gallu i weld a bydd gostwng y terfyn cyflymder i 20mya yn gwella diogelwch fwy fyth.

**5 Problem -** Does fawr ddim i rwystro cerbydau rhag mynd i mewn i ardal y promenâd. Mae perygl y gallai cerbydau groesi'r llwybr beiciau a'r promenâd.

**5 Ateb -** Gosod bolardiau yn nhu blaen pob lle parcio er mwyn rhwystro cerbydau rhag dod i gysylltiad â cherddwyr a beicwyr.

**6 Problem -** Mae'r llwybr beicio ar wahân rhwng y promenâd a'r llefydd parcio yn rhoi'r hyder i rai beicwyr deithio ar gyflymderau uwch, gyda'r posibiliadau o wrthdrawiadau.

**6 Ateb -** Llwybr teithio llesol 'rhannu â gofal' 4m o led, a llain 'cerddwyr yn unig' culach wrth ymyl y canllaw.

**7 Problem -** Mae'r llwybr beicio wedi'i farcio â chyrbau mewn sawl lle ar y ddwy ochr ar hyd y promenâd sydd yn achosi perygl y bydd pobl yn baglu drostynt.

**7 Ateb -** Symud y cyrbau sydd rhwng y llefydd parcio a'r llwybr teithio llesol. Mae'r parth gweithgaredd ar ochr y môr o'r llwybr teithio llesol yn creu gwahanfur heb y perygl o faglu.

## Diogelwch ar y promenâd







Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

CONWY
Cyngor Bwrdeistref Sirol
County Borough Council